Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Seiont a Pheblig

Canolfan Noddfa
Cil Peblig
Caernarfon
LL55 2RS

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Seiont a Pheblig

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Seiont a Pheblig |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Bethan Llywelyn Glyn |
| Person â gofal | Karen Evans |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09:10 – 11:40 a 12:15 – 14:45 dydd Llun – dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 18/02/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Datblygu ymhellach y defnydd effeithiol o arsylwadau er mwyn cynllunio’r camau nesaf yn natblygiad y plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan y plant lais cryf iawn. Mae pob plentyn yn gwneud nifer helaeth o ddewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Maent yn defnyddio’r amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau diddorol i sbarduno eu chwarae ac i ddatblygu eu syniadau. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu’n hyderus, gan wybod bod yr ymarferwyr yn gwrando arnynt.

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus, yn llawn bywyd ac yn barod i chwarae a dysgu. Maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â’r ymarferwyr. Dangosa bron pob plentyn hoffter tuag at yr ymarferwyr, gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus wrth adael eu rhieni neu ofalwyr. Maent yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau a'u pryderon yn deyrngar. Er enghraifft, maent yn mynd at ymarferwyr am gymorth i ddringo cyfarpar anturus, neu am gysur pan fo’r angen yn codi.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn arbennig o dda am eu hoedrannau a’u camau datblygiad. Maent yn cyd-chwarae neu’n chwarae ochr yn ochr â’i gilydd yn hwylus dros ben. Maent yn rhannu adnoddau gyda chymorth ac anogaeth oedolyn. Maent yn gofyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau, fel y twba tywod, ac yn rhannu gyda’u cyfoedion pan fyddant yn llenwi bwced. Mae bron pob plentyn yn dysgu sut i aros tro yn amyneddgar. Er enghraifft, maent yn aros eu tro i dderbyn cymorth oedolyn i ddringo ar y ffrâm ddringo.

Mae bron pob plentyn yn dangos lefel uchel o gymhelliant a dyfalbarhad wrth chwarae. Maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfleoedd dysgu cyffrous sy’n eu galluogi i ddysgu, archwilio ac arbrofi yn hyderus iawn. Mae bron pob plentyn yn symud o gwmpas yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn hwylus dros ben wrth fagu hyder. Maent yn archwilio’u hamgylchedd yn annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau yn rhydd. Mae plant yn canolbwyntio am amser cynyddol wrth greu siapiau pasta o does, ac yn gwrando ar ganeuon Cymraeg gyda llawer o frwdfrydedd. Mae plant yn canolbwyntio ar eu tasgau am amser estynedig wrth lenwi cynwysyddion o’r tap i ddyfrhau blodau neu greu marciau gyda dŵr.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau annibynnol da. Maent yn golchi eu dwylo yn effeithiol ac yn medru gwisgo cotiau gydag ychydig o gymorth gan ymarferwyr. Maent yn dangos balchder mawr wrth gyflawni hyn ac yn derbyn canmoliaeth gan ymarferwyr. Yn ogystal, maent yn arllwys llaeth a dŵr yn ofalus ac yn dewis o amrywiaeth o ffrwythau yn ystod amser byrbryd. Mae’r ‘helpwr heddiw’ yn paratoi bwyd yn y gegin gydag ymarferwyr yn hyderus ac yn defnyddio cyllell yn gywir.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch a goruchwyliaeth yn barhaus. Maent yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn iach ac yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes pryderon am les y plant. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a nifer digonol wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg a hylendid bwyd. Mae'r gweithdrefnau a'r arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo yn annibynnol ar yr amseroedd priodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n arbennig o dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda'r plant. Mae'r ymarferwyr yn galluogi'r plant i fod yn yr awyr agored bob dydd, ymhob tywydd, gan sicrhau bod plant yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Maent yn darparu byrbryd a diod iach i blant. Mae systemau priodol ar waith i ymdopi ag alergeddau. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae systemau addas ar gyfer rhoi meddyginiaethau os bydd angen ac ar gyfer rheoli anghenion iechyd penodol plant unigol. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnod presenoldeb cywir o ymarferwyr a phlant, a chofnod o ymwelwyr. Maent yn goruchwylio plant yn llwyddiannus iawn ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at ddarpariaeth ddiogel i'r plant.

Mae ymarferwyr wedi ffurfio perthynas gadarn â'r plant. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn ymateb yn bositif tuag at eu hanghenion a'u diddordebau. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau cyson i hybu ymddygiadau cadarnhaol yn unol â'r polisi. Maent yn annog y plant i fod yn ofalus wrth chwistrellu paent a chynnig esboniadau iddynt wrth fesur risgiau. Mae ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol y plant yn effeithiol trwy fanteisio ar sgyrsiau difyr am ffermio ac aelodau'r teulu. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn annog plant i ddweud 'diolch' am eu bwydydd a diodydd. Maent yn canmol y plant yn barhaus wrth iddynt helpu tacluso a chyflawni tasgau o'u dewis personol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn adnabod diddordebau ac anghenion y plant yn dda. Maent yn diwallu eu camau datblygiadol nesaf trwy ddarparu profiadau cyfoethog i blant archwilio a darganfod trwy chwarae. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol er mwyn derbyn

cymorth ychwanegol oddi wrth asiantaethau allanol. Mae'r ymarferwyr yn darparu awyrgylch Cymreig i blant ac yn bwydo iaith yn effeithiol, sydd yn gryfder iddynt.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut mae plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio. Maent yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sydd yn hybu chwilfrydedd naturiol y plant yn dda. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ymatebol ac yn dechrau defnyddio arsylwadau i adnabod diddordebau ac anghenion y plant yn briodol. Maent yn asesu'r plant yn bwrpasol gyda manylder cynyddol sydd yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn effeithiol. Maent yn paratoi gweithgareddau sydd yn denu'r plant ac yn darparu adnoddau addas sydd yn galluogi'r plant i lwyr ymgolli yn eu chwarae. Er enghraifft, ar ôl i blentyn ddangos diddordeb mewn anifeiliaid mewn parc anifeiliaid, creodd yr ymarferwyr weithgareddau yn yr ardal ddŵr i hybu'r plant i siarad amdanynt.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith arbennig o dda ac yn bachu ar bob cyfle i fwydo iaith raenus i'r plant. Er enghraifft, maent yn cyflwyno geirfa fel toddi a dadmer wrth i blant geisio rhyddhau anifeiliaid o giwbiau iâ. Mae'r ymarferwyr yn annog medrau rhifedd y plant yn llwyddiannus trwy gyfatebu lluniau anifeiliaid wrth chwarae gêm loto ac yn eu hannog i ymuno mewn caneuon rhif wrth osod y camau ar y llawr.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau gwerthfawr sy'n hybu medrau corfforol y plant yn dda. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ymuno mewn caneuon symud ac i deithio ar hyd y cwrs antur tu allan. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda iawn drwy gerdded, cropian, cydbwyso a llithro wrth deithio o amgylch y cwrs antur. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddyfalbarhau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth. Er enghraifft, wrth annog y plant i ddefnyddio amrywiaeth o offer i greu eu modelau eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol y plant yn dda. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ddatblygu dealltwriaeth y plant o ddigwyddiadau a diwrnodau pwysig mewn diwylliannau gwahanol. Darperir cyfleoedd sydd yn datblygu dealltwriaeth o bobl yn y gymuned ehangach a chydraddoldeb yn effeithiol. Darperir llyfrau a doliau aml-ddiwylliannol, yn ogystal â sesiynau gan ymwelwyr allanol, er enghraifft sesiynau dawnsio Somaleg. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n annog y plant i feddwl am y byd o'u cwmpas a sut i ofalu am bethau byw. Er enghraifft, mae'r ardal arddio tu allan yn rhoi cyfle i'r plant ddysgu am dyfiant planhigion drwy blannu amrywiaeth o blanhigion a pherlysiau.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r lleoliad yn ddiogel, yn groesawgar, yn gynnes ac yn cael ei gynnal a chadw'n effeithiol. Mae'r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn ddi-dor sydd yn annog chwilfrydedd y plant wrth symud o gwmpas yn rhydd ac yn hwylus. Mae'r ardalaoedd mewnol ac allanol wedi eu trefnu'n hynod o ofalus a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth eang o gyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus iawn. Mae'r arweinwyr wedi trefnu'r amgylchedd mewn ffordd sy'n creu ymdeimlad cryf iawn o berthyn i'r plant a'r ymarferwyr.

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch yn barhaus. Maent yn sicrhau gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli yn effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes peryglon amlwg yn bodoli. Mae'r cofnodion yn gyfredol ac mae'r arweinydd yn sicrhau ei bod yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn effeithiol. Mae modd i blant ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar gelfi sydd yn addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus wrth i'r plant ddefnyddio'r tŷ bach neu wrth newid cewyn. Mae ardaloedd tawel ar gael i blant yn yr ardal tu fewn. Mae ystod dda iawn o adnoddau ar gael i blant sydd o fewn eu cyrraedd ar bob adeg.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd uchel. Maent yn trefnu'r rhain mewn modd sy'n galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau a deunyddiau naturiol 'go iawn' sydd yn datblygu dychymyg a chwilfrydedd y plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd ardderchog i arbrofi gyda thoes. Mae ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyfleoedd pwrpasol a chyffrous i blant ddatblygu eu creadigrwydd ac yn sbarduno medrau archwilio a darganfod effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir am y lleoliad ac maent wedi llwyddo i greu diwylliant cyfeillgar a gofalgar. Mae ganddynt systemau cryf a chynaliadwy sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad pob plentyn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n arbennig o dda fel tîm ac yn llwyr ymwybodol o'u swyddi a'u cyfrifoldebau. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi gwybodaeth am waith y lleoliad a beth maent yn ei gynnig. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyfathrebu'n dda, ac o ganlyniad, mae'r lleoliad yn rhedeg yn effeithiol iawn.

Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn angerddol am wella’r lleoliad. Mae prosesau hunanwerthuso’r lleoliad yn gryf ac maent yn gwrando ar argymhellion asiantaethau allanol, staff, rhieni a gofalwyr er mwyn adnabod meysydd i’w gwella. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau’r lleoliad a’r materion sydd angen sylw yn gywir. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau i archebu adnoddau i hybu medrau’r plant, er enghraifft trwy archebu cwrs antur tu allan i hybu medrau corfforol y plant.

Mae arweinwyr yn rheoli a goruchwylio pob ymarferydd yn gydwybodol ac yn eu cefnogi’n effeithiol iawn, gan roi cyfleoedd dysgu proffesiynol cyfoethog ac amserol iddynt. O ganlyniad, mae hyder a dealltwriaeth yr ymarferwyr yn cynyddu ac maent yn darparu profiadau gwerthfawr i’r plant. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol, ac yn darparu arweiniad cadarn i staff. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu’n  flynyddol. Maent yn sicrhau bod yr holl brosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith yr holl ymarferwyr yn drwyadl.

Mae gan yr arweinwyr berthynas gref iawn â’r rhieni a’r gofalwyr. Defnyddiant gyfryngau cymdeithasol diogel i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth a gweithgareddau perthnasol am gyflwyniadau eu plant. Maent yn gwneud defnydd da o gyngor gan athrawes ymgynghorol y sir ac asiantaethau eraill. Maent wedi datblygu cysylltiadau da â busnesau lleol sydd yn cael effaith fuddiol ar y ddarpariaeth mae’r plant yn ei derbyn. Mae ganddynt gysylltiad da â’r ysgolion lleol ac wedi creu trefniadau trosglwyddo cadarn iawn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2025